Gwers y *Tepee*: dod a bod yn gyflawn aelod.

Mae derbyn person ifanc i fod yn gyflawn aelod o eglwys yn ddigwyddiad cynhyrfus iawn i unrhyw gynulleidfa. Penllanw llawer o drafod, astudiaeth Feiblaidd, gweddi a myfyrdod yw'r Oedfa Dderbyn; ynghyd â datganiad personol yr unigolyn ei fod am gael ei dderbyn rhaid wrth hyfforddiant a pharatoad o beth yw ystyr bod yn gyflawn aelod. Sut mae hyfforddi a chyflwyno paratoad o'r fath yn 2011? Yn yr oes weledol, brysur, angen-cadw-sylw sydd ohoni anaml iawn y llwyddir i wneud hyn mewn dosbarth traddodiadol.

Trwy gyfarfodydd rheolaidd ***PIMS*** (***P***obl ***I***fanc ***M***inny ***S***treet) bydd Eglwys Annibynnol Minny Street yn hyfforddi ei phobl ifanc ar gyfer cyflawn aelodaeth. Wrth agosáu at Oedfa Dderbyn rhaid

dechrau crynhoi a gwerthuso trafodaethau a myfyrdodau - a pha well ffordd i wneud hynny na thrwy fynd i Orllewin Gwyllt yr Unol Daleithiau a chodi *tepee*!

Rhaid i bob strwythur gael fframwaith; i'r *tepee* rhaid cael polion - chwech ohonynt. Dyna hefyd yr union beth sydd ei angen i fod yn aelod o Eglwys Iesu Grist a daethpwyd o hyd i'r polion angenrheidiol yn nhudalennau'r Testament Newydd: **Ufudd-dod** 2 Ioan 6; **Parch** Effesiaid 6: 2-3; **Llawenydd** Mathew 5:9 **Diolchgarwch** Philipiaid 4:6, **Rhannu** Luc 3:11 a **Chariad** 1 Ioan 4:20-21. Diwerth chwe pholyn heb gortyn i'w clymu at ei gilydd; diwerth hefyd wybodaeth o nodweddion aelodaeth heb **Berthynas** (Salm 68:6) a chynhesrwydd yr eglwys leol yn eu cadw ynghlwm. Rhaid felly rhwymo'r chwe pholyn yn dynn, at ei gilydd, cyn creu fframwaith soled i'r tepee. Ond ofer y polion a'r cortyn heb groen i orchuddio; ofer nodweddion aelod a fframwaith eglwys heb **Ofal Duw** (Salm 91:2) yn glogyn o gariad o amgylch.

Beth felly ddywed y *tepee* wrthym - yn ddarpar aelodau ac eisoes yn aelodau? Wrth ddod a bod yn gyflawn aelodau:

- dewiswn fod yn **ufudd** i Iesu yn ein bywyd pob dydd, ac i ddysgu gan ein gilydd o fewn yr eglwys;
- dewiswn **barchu** barn, gwerth a hunaniaeth eraill, a chawn ein parchu hefyd am beth a phwy ydym;
- cawn brofi o **lawenydd** cyfeillgarwch, cysur a chymorth i fyw cwmni a chymdeithas pobl Dduw;
- **diolchwn** am ofal Duw, am gariad Iesu Grist ac am gwmni pobl Dduw;
- dewiswn **rannu** ein cyfoeth ariannol, a chyfoeth ein profiad, dawn a dysg er mwyn i achos Iesu Grist ffynnu yn ein plith;
- dewiswn **gariad** Duw fel ffordd o fyw;
- down yn aelod o **deulu'r eglwys** yn lleol a byd-eang;
- derbyniwn o **ofal a chynhaliaeth Duw** beth bynnag ddaw mewn bywyd.

Y Tyst - 17 Chwefror 2011